



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Dogfen ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 9 Tachwedd 2018

Y Gweithiwr Gofal Preswyl Plant

**Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr
gofal preswyl plant sydd wedi cofrestru
gyda Gofal Cymdeithasol Cymru**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Manylion cyswilt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@
gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @gofalcymdeithasol

© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras a fformatau eraill, os oes angen.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Sut i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwahodd sylwadau ar yr canllawiau erbyn **dydd Gwener 9 Tachwedd 2018**.

Ymateb ar-lein:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/ymgyngoriadau/diweddariad-i-ganllawiau-ymarfer-ar-gyfer-gofal-cymdeithasol>

Ymateb drwy'r post:

Gofal Cymdeithasol Cymru, South Gate House, Wood Street,
Caerdydd CF10 1EW.

(i)	Yr ymgynghoriad	6
1.	Y canllawiau.	7
2.	Sut mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i chi	7
3.	Gweithwyr gofal preswyl plant	8
4.	Gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn	8
4.1	Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol	8
4.2	Cyfathrebu da	9
4.3	Anghenion y Gymraeg	9
4.4	Cyfrinachedd	10
4.5	Aelodau'r teulu	10
4.6	Cysylltiadau a ffiniau proffesiynol	11
4.7	Hawliau a diogelu	12
5.	Ymarfer gofal preswyl plant da	12
5.1	Gwybod ble mae pen draw eich gallu	12
5.2	Cynlluniau personol	13
5.3	Ansawdd bywyd	13
5.4	Iechyd ac addysg.	14
5.5	Cynllunio ar gyfer y dyfodol	14
5.6	Cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael gofal	15
5.7	Gweithio mewn timau.	15
5.8	Cofnodion ac adroddiadau.	15
5.9	Sylwadau a chwynion am wasanaethau.	16
6.	Diogelu unigolion	17
6.1	Deall diogelu	17
6.2	Cynorthwyo plant a phobl ifanc i'w cadw eu hunain yn ddiogel.	17
6.3	Anffurfio organau cenhedlu benywod	18
6.4	Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth	18

7. Iechyd a diogelwch	18
7.1 Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd.	18
7.2 Meddyginiaeth	18
7.3 Diogelwch a llesiant	19
7.4 Cefnogi ymddygiad cadarnhaol	19
7.5 Cefnogi iechyd a diogelwch	20
8. Dysgu a datblygu	20
8.1 Diweddarau'ch gwybodaeth	20
8.2 Goruchwyllo ac arfarnu	21
8.3 Cefnogi dysgu cydweithwyr	21
9. Cyfrannu at wella gwasanaethau	22
9.1 Adnoddau.	22
9.2 Mynegi pryderon	22
10. Ymddygiad da	23
10.1 Cofrestriad proffesiynol	23
10.2 Rhoddion a chyfraniadau	23
10.3 Cyfryngau cymdeithasol	23

(i) Yr ymgynghoriad hwn

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyhoeddi canllawiau ymarfer ar gyfer pob grŵp o weithwyr cofrestredig. Datblygwyd y canllawiau dros amser gan ddechrau gyda'r canllawiau ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol yn 2013, canllawiau gweithwyr cymdeithasol yn 2014 a chanllawiau gweithwyr gofal preswyl i blant yn 2015. Mae pob un o'r dogfennau wedi cael ei diweddarau'n flynyddol ers ei chyhoeddi gyntaf – mân newidiadau gan mwyaf.

Eleni rydym yn adolygu'r canllawiau i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben.

Dyma'r prif newidiadau i ni eu gwneud:

- defnyddio ein canllawiau ar gywair i sicrhau bod yr iaith yn syml ac yn glir
- sicrhau bod y canllawiau'n gyson â deddfwriaeth newydd, gan gryfhau cyfeiriadau at weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, canlyniadau, dulliau 'beth sy'n bwysig' a hawliau dynol
- ychwanegu cynnwys at y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol
- sicrhau cysondeb, lle bo angen, ar draws canllawiau (gan i'r canllawiau gwreiddiol gael eu llunio ar wahân, daeth rhai disgwyliadau gwahanol i'r amlwg ac roedd angen eu hegluro – yr adrannau Cyfryngau Cymdeithasol a Cysylltiadau a Ffiniau Proffesiynol, er enghraifft).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i randdeiliaid ddweud eu dweud am y newidiadau hyn a chynnig sylwadau eraill. Rydym yn awyddus i glywed sut rydych chi'n defnyddio'r canllawiau yn eich rôl hefyd.

1. Y canllawiau

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer gweithwyr gofal preswyl plant sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru:

Nod y canllawiau hyn, sy'n adeiladu ar y Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, yw:

- Disgrifio'r hyn y mae disgwyl i weithwyr ei wneud
- Cynorthwyo rheolwyr i ddarparu gwasanaeth da

Maent yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol, barn plant a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau o dro i dro. Nid ydynt yn cynnwys pob un dim ac mae disgwyl i weithwyr arfer eu crebwyll proffesiynol, gan weithredu'r egwyddorion cyffredinol a chymryd cyngor gan reolwyr, pan fydd angen. Rhaid i reolwyr gadw at ofynion eu cyflogwyr.

2. Sut mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i chi

Canllawiau ar gyfer gweithwyr gofal preswyl plant yng Nghymru yw'r rhain. Maent yn berthnasol i gyflogwyr hefyd – **mae'r Còd Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol yn dweud y bydd cyflogwyr yn cynorthwyo gweithwyr i fodloni'r safonau yn y canllawiau.**

Gellir eu defnyddio i roi gwybod i blant a phobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl gennych chi fel gweithiwr.

Eich cyfrifoldeb chi yw dilyn y canllawiau hyn. Er mai'r Còd Ymarfer Proffesiynol yw'r brif ddogfen a ddefnyddir os oes pryderon ynghylch addasrwydd gweithiwr i ymarfer, gall Gofal Cymdeithasol Cymru ddefnyddio'r canllawiau hyn i ddangos methiant i gadw at y Còd.

- Mae'r term 'mae'n rhaid i chi' yn rhywbeth sy'n ofynnol i chi ei wneud.
- Defnyddir 'dylech chi' pan allai ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth effeithio ar sut gallwch chi gydymffurfio â'r canllawiau.

Gall Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried y canllawiau hyn yn ei gwaith hefyd.

3.

Gweithwyr gofal preswyl plant

Mae gweithwyr gofal preswyl plant yn gwneud gwaith proffesiynol, yn darparu gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sydd angen gofal i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd am gyfnodau byr neu hir. Mae gweithwyr yn chwarae rhan hollbwysig o ran darparu amgylchedd diogel, sicr, cefnogol a chartrefol, hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc a'u helpu i gyflawni eu potensial llawn. Gall gweithwyr gael dylanwad cadarnhaol gan gefnogi plant a phobl ifanc i dyfu'n oedolion ffyniannus er gwaethaf profiadau a heriau andwyol yn ystod eu plentyndod.

Mae'n rhaid i weithwyr gofal preswyl plant gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

4.

Gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn

Mae gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ymwneud â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gofal a'r cymorth sy'n addas i'w hanghenion unigol. Mae'n cynnwys ymrwymiad cryf i hawliau'r plentyn a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'n cynnwys gweithio gyda'r plentyn i ddeall a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo.

Mae'r gwerthoedd gofal cymdeithasol sef parch, tosturi ac urddas yn ogystal â sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol.

4.1 Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Mae'r Côt yn disgrifio'r safonau sydd i'w disgwyl gan weithwyr. Mae'r safonau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i chi:

1. Barchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau, unigolion a gofalwyr.
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
3. Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr gan eu cefnogi i'w cadw eu hunain yn ddiogel.
4. Parchu hawliau unigolion gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio'u hunain na phobl eraill.

5. Gweithredu'n ddidwyll a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
6. Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
7. Yn ogystal ag adrannau 1 – 6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y Còd yn rhan annatod o'u gwaith.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r Còd i fyfrio ar eich ymddygiad ac ymarfer a nodi meysydd y gallwch chi barhau i'w gwella.

4.2 Cyfathrebu da

Mae cyfathrebu'n dda gyda phlant a phobl ifanc yn rhan hanfodol o'ch gwaith. Mae'n cynnwys sgiliau cyfathrebu geiriol ac aneiriol, y gallu i feithrin ymddiriedaeth ac addasu'r cyfathrebu i weddu i oedran a gallu'r plentyn a'r sefyllfa.

Er mwyn cyfathrebu'n dda mae'n rhaid i chi:

- a. ddod i adnabod plant a phobl ifanc a gwranddo arnynt
- b. parchu eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau
- c. ystyried pa iaith a dull cyfathrebu sydd well ganddynt
- ch. gwybod sut mae defnyddio cymhorthion cyfathrebu perthnasol
- d. gwybod sut mae ymateb os ydynt wedi mynd i'w cragen, yn flin, mewn trallod neu wedi cynhyrfu
- dd. ymateb i gwestiynau a phryderon
- e. sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut gall gwybodaeth gael ei rhannu.

Dylech wybod sut mae cael gafael ar eiriolwyr neu ddehonglwyr annibynnol, pan fydd angen.

Mae cyfathrebu da yn hanfodol ar gyfer gweithio gyda theuluoedd, cydweithwyr a rheolwyr hefyd.

Rhaid i chi beidio â defnyddio iaith sarhaus neu anwedus wrth eich gwaith.

4.3 Anghenion y Gymraeg

Dim ond yn y Gymraeg y gall rhai plant a phobl ifanc gyfathrebu eu hanghenion yn effeithiol. Mae cyfathrebu yn yr iaith o ddewis y plentyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael

eu diwallu. Dylech geisio defnyddio unrhyw sgiliau Cymraeg sydd gennych, waeth pa mor elfennol, os yw'n eich helpu i gyfathrebu.

Bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar eich cyflogwr i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a mynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

4.4 Cyfrinachedd

Mae'n rhaid i chi arfer doethineb wrth drin gwybodaeth bersonol unigolyn. Mae gwybodaeth bersonol yn cynnwys unrhyw wybodaeth yn ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellid ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gall hyn gynnwys pob math o wybodaeth – llafar, ysgrifenedig, ffotograffau ac ati. Nod Deddf Diogelu Data 2018 yw sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y defnydd o wybodaeth bersonol yn yr economi ddigidol.

Mae'n rhaid i chi ddilyn gofynion cyfreithiol a pholisïau'ch sefydliad ynghylch cyfrinachedd, diogelu data a rhannu gwybodaeth. Dylech wybod pryd mae angen i chi rannu gwybodaeth a gyda phwy, er enghraifft, lle mae yna bryderon diogelu. Os oes angen, dylech ofyn am gyngor gan reolwyr neu uwch gydweithwyr.

4.5 Aelodau'r teulu

Mae'n rhaid i chi ddangos parch at aelodau'r teulu ac eraill sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc.

Dylech wybod am hawliau plant, rhieni ac eraill i gadw mewn cysylltiad. Lle bo'n briodol, a hynny gan ystyried dymuniadau'r plentyn, dylech gefnogi cyswllt adeiladol, gan gynnwys ymddwyn mewn ffordd galonogol a chroesawgar.

Dylech wybod pryd a sut i annog aelodau'r teulu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau arbennig hefyd.

Dylech fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau ar gyswllt, a chadw atynt, a gwybod am unrhyw ofynion ar gyfer monitro cyswllt a threfniadau i oruchwylio ymweliadau. Mae'n rhaid i chi gymryd cyngor gan reolwyr lle bo angen.

Os cewch unrhyw anawsterau yn ymwneud â gweithio gydag aelodau'r teulu, rhaid i chi gael cyngor gan reolwyr neu uwch gydweithwyr.

4.6 Cysylltiadau a ffiniau proffesiynol

Mae ansawdd eich perthynas gyda phlant a phobl ifanc yn bwysig iawn. Mae'n hanfodol creu amgylchedd cartrefol, cynnes, caredig, cyfeillgar ac anghlinigol. Weithiau, fodd bynnag, gall yr agosrwydd hwn gymylu'r ffiniau proffesiynol a chreu anawsterau. Mae enghreifftiau'n cynnwys pethau fel rhannu gormod o wybodaeth bersonol neu gyflawni tasgau y tu hwnt i'ch rôl.

Mae'n rhaid i chi weithio gyda'ch rheolwr i:

- a. sicrhau eich bod chi'n deall eich rôl broffesiynol a phen draw eich dyletswyddau
- b. deall a chadw at bolisi'ch sefydliad ar ffiniau proffesiynol
- c. arfer ffiniau proffesiynol mewn modd teg a chyson
- ch. gofyn am gymorth a gweithredu mewn modd sensitif pan fydd plentyn neu berson ifanc yn camddarllen y berthynas neu'n drysu am y berthynas
- d. mynd i'r afael ag unrhyw achosion posibl o groesi ffiniau proffesiynol.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod popeth a wnewch gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn agored i'w trafod gyda'ch rheolwr.

Mae ffiniau proffesiynol yn berthnasol i bob ffurf ar gyfathrebu rhwng gweithwyr, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddefnydd o ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol.

Mae rhai pethau'n croesi ffiniau derbyniol yn amlwg. Er nad yw'r rhestr hon yn cynnwys pob un dim, mae pethau annerbyniol yn cynnwys:

- a. cael perthynas rywiol neu berthynas amhriodol arall gydag berson ifanc sydd yn defnyddio'r wasanaeth neu rhiwyn agos iddynt
- b. cael benthyg arian gan unigolyn neu roi benthyg arian i blentyn neu berson ifanc
- c. rhoi breintiau arbennig i 'hoff' unigolion
- ch. methu â darparu'r gofal a'r cymorth a gytunwyd, er enghraifft, oherwydd teimladau negyddol am unigolyn
- d. ceisio gorfodi'ch credoau crefyddol, moesol neu wleidyddol eich hun ar unigolyn
- dd. gweithredu mewn unrhyw ffordd sy'n niweidio unigolyn
- e. unrhyw arfer sydd wedi'i wahardd yn benodol mewn cyfraith neu reoliadau statudol.

Nid yw cytundeb ymddangosiadol plentyn neu berson ifanc neu eu teulu byth yn amddiffyniad ar gyfer y pethau hyn.

4.7 Hawliau a diogelu

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc mae'n hanfodol cydnabod eu hanghenion unigryw a'u hawliau penodol. Bydd gan eich cyflogwr rwymedigaethau cyfreithiol i amddiffyn hawliau plant a sicrhau nad yw pobl yn dioddef gwahaniaethu. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a chonfensiynau cysylltiedig y Cenhedloedd Unedig.

Datganiad o hawliau plant sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae'r Confensiwn yn cynnwys 41 erthygl sy'n cwmpasu pob agwedd ar fywyd plentyn ac sy'n amlinellu'r hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae gan blant ym mhob man yr hawl iddynt. Mae'n egluro hefyd sut mae'n rhaid i oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr y gall pob plentyn arfer ei hawliau. Mae gan bob plentyn hawliau, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, gallu neu unrhyw statws arall.

Mae'n rhaid i chi wybod am bolisiau'ch sefydliad ar hawliau a diogelu a chadw atynt. Yn arbennig, mae'n rhaid i chi weithio gyda'ch cyflogwr i gynnal hawliau plant a phobl ifanc yn eich gofal. Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw berson sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth.

5. Ymarfer gofal preswyl plant da

Mae ymarfer gofal preswyl plant da yn seiliedig ar sicrhau bod gofal a chymorth yn canolbwyntio ar y plentyn. Yn ogystal â rhoi gofal a chymorth, mae ansawdd eich perthynas â phlant a phobl ifanc yn hollbwysig, gan gyfrannu at ansawdd bywyd a theimlad o ddiogelwch a pherthyn. Mae plant a phobl ifanc angen eu meithrin.

Gall eich perthynas â phlentyn neu berson ifanc barhau dros gyfnod hir. Efallai y byddwch yn eu cynorthwyo trwy sefyllfaoedd a newidiadau bywyd anodd. Byddwch yn ymwybodol o wybodaeth bersonol iawn am eu hamgylchiadau.

Mae plant a phobl ifanc yn disgwyl i chi fod yn:

- onest
- caredig
- amyneddgar
- credadwy
- gofalgar
- dibynadwy
- gwrthrychol
- anfeirniadol
- cefnogol
- teg
- hyblyg
- esiampl dda

Mae plant a phobl ifanc yn disgwyl i chi geisio deall eu byd o'u safbwynt nhw. Mae angen i chi gael dealltwriaeth dda o gefndir plentyn a pha ddulliau fydd yn gweithio.

5.1 Gwybod ble mae pen draw eich gallu

Mae'n rhaid i chi fod yn barod i gydnabod pen draw eich cymhwysedd, a gweithio yn unol â hynny, gan dderbyn cyngor gan reolwyr a chydweithwyr fel sy'n briodol. Mae'n rhaid i chi ofyn am gymorth os na allwch chi gyflawni unrhyw agwedd ar eich gwaith, neu os ydych chi'n ansicr ynglŷn â beth i'w wneud. Dylech fod yn barod i ddysgu ac ymgymryd â'r ystod lawn o dasgau ar gyfer eich swydd.

Os ydych chi'n gwneud camgymeriad, rhaid i chi ymddwyn yn agored ac yn onest, gan roi eglurhad llawn i'ch rheolwr yn syth. Dylech fod yn barod i ddysgu o'ch camgymeriadau.

5.2 Cynlluniau personol

Fel y bo'n briodol, dylech gyfrannu at ddatblygiad cynllun lleoliad unigol sy'n:

- cynnwys y plentyn neu'r person ifanc yn llawn
- seiliedig ar ei gryfderau a'i anghenion
- nodi'r canlyniadau y mae am eu cyflawni.

Dylech:

- a. ddeall y cynllun a'ch rôl ynddo
- b. gwneud pob ymdrech i weithio'n dda gydag eraill yn y cynllun (fel cydweithwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol eraill)
- c. cyfrannu at adolygu'r cynllun, er enghraifft, tynnu sylw at gynnydd ac unrhyw anawsterau.

Mae'n rhaid i chi gyflawni'ch rôl yn y cynllun personol.

5.3 Ansawdd bywyd

Mae darparu ar gyfer ansawdd bywyd yn ganolog i ymarfer gofal preswyl plant da. Mae'n rhaid i chi hyrwyddo ansawdd bywyd mewn ffordd weithredol, gan wneud popeth posibl yn eich swydd i sicrhau'r canlynol ar gyfer plant a phobl ifanc:

- eu bod yn byw mewn amgylchedd cartrefol

- eu bod yn derbyn gwybodaeth briodol am eu gofal a’u cymorth
- bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu
- parch at eu hunaniaeth, diwylliant, eu credoau a’u rhywedd
- eu bod yn cael eu hamddiffyn yn erbyn bwlio
- parch at eu preifatrwydd a’u gofod personol
- bod eu harian a’u heiddo yn ddiogel
- eu bod yn cael llais yn cynnwys ynghylch rhedeg y cartref preswyl
- eu bod yn cael cymorth i gael ffrindiau, diddordebau a hobiau
- eu bod yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau bywyd a sgiliau cymdeithasol
- bod cyfle iddynt fwynhau gweithgareddau pwrpasol
- eu bod yn derbyn gofal a chymorth ychwanegol lle bo angen, e.e. wrth gael eu derbyn i’r gwasanaeth ac yn ystod digwyddiadau a newidiadau arwyddocaol eraill
- eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar eiriolaeth
- eu bod yn gwybod sut i godi pryderon neu gwyno.

Noder: nid yw’r rhestr uchod yn gyflawn ond mae’n rhoi enghreifftiau o hyrwyddo ansawdd bywyd.

5.4 Iechyd ac addysg

Mae’n hanfodol bod anghenion iechyd ac addysg plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl yn cael eu diwallu, a bydd eich cyfraniad at sicrhau bod hyn yn digwydd yn allweddol. Mae’n rhaid i chi weithredu polisiau’ch sefydliad ar anghenion iechyd ac addysg.

Mae’n rhaid i’ch gwaith gyda phlant a phobl ifanc hyrwyddo iechyd corfforol, emosiynol a rhywiol da. Dylech fod yn gyfarwydd ag anghenion iechyd penodol plentyn unigol a gallu ymateb iddynt. Mae’n rhaid i chi ymateb i unrhyw bryderon.

O safbwynt addysg, mae’n rhaid i chi wneud eich gwaith drwy gefnogi’r plentyn. Fel sy’n briodol, gall hyn gynnwys cydweithio ag ysgolion; cefnogi presenoldeb; darparu cymorth ar gyfer astudio a gwaith cartref ac ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.

5.5 Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae pobl ifanc yn ystyried paratoi ar gyfer y dyfodol yn hanfodol: paratoi at fywyd cyflawni eu dyheadau a’u potensial. Mae angen

gwybodaeth a chefnogaeth ar bobl ifanc mewn meysydd megis tai, cyflogaeth, hyfforddiant, budd-daliadau, byw'n annibynnol ac ymdopi ag unigrwydd. Mae pobl ifanc eisiau cyfrannu'n llawn at gynlluniau yn hytrach na bod cynlluniau'n cael eu llunio ar eu rhan.

Fel sy'n briodol, dylech gyfrannu at ddatblygu cynllun pontio unigol. Mae'n rhaid i chi ddeall y cynllun a'ch rôl chi yn y cynllun.

5.6 Cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisi'ch sefydliad yn ymwneud â chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal. Dylech gadw at y dulliau y cytunwyd arnynt o gadw mewn cysylltiad ac ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw bob amser. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â pherson ifanc sy'n parhau i dderbyn gwasanaethau a phan fo'r unigolyn yn oedolyn ac nad yw mwyach yn derbyn gwasanaethau.

5.7 Gweithio mewn timau

Mae gwaith tîm da yn dibynnu ar bob aelod o'r tîm, nid uwch staff yn unig. Wrth weithio mewn tîm, mae'n rhaid i chi wneud pob ymdrech i:

- a. ddeall eich rôl a'ch cyfrifoldebau
- b. cyfathrebu'n dda
- c. hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc
- ch. parchu sgiliau a chyfraniadau cydweithwyr
- d. paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chyfrannu atynt yn gadarnhaol
- dd. rheoli anghytundeb mewn ffordd adeiladol.

Mae'n rhaid i chi fod yn barod i godi pryderon am ymarfer.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio dulliau cyfathrebu y cytunwyd arnynt fel cyfarfodydd staff, hysbysfyrdau a systemau cofnodi er mwyn cefnogi gwasanaeth diogel sydd wedi'i gydgyssylltu'n dda.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r gweithdrefnau trosglwyddo i'ch cydweithwyr.

5.8 Cofnodion ac adroddiadau

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddisgwyl bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei chofnodi a'i hadrodd yn gywir a'i defnyddio'n

briodol. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw at weithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cwblhau cofnodion ac adroddiadau. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod y cofnodion a'r adroddiadau:

- a. yn gywir, yn glir, yn gyflawn ac yn gyfredol
- b. yn adlewyrchu barn a safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc
- c. yn gallu cael eu deall gan y rhai sydd â hawl i'w gweld.

Dylech sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau yn cael eu storio a'u rhannu yn unol â gofynion eich sefydliad, gan gynnwys gofynion diogelu data.

Os nad ydych chi'n siŵr am gofnodi gwybodaeth, mae'n rhaid i chi ofyn i'ch rheolwr am gyngor.

Rhaid i chi beidio â ffugio, newid nac ôl-ddyddio cofnodion neu adroddiadau.

5.9 Sylwadau a chwynion am wasanaethau

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut i wneud sylwadau neu gwynion am eu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys proses y cartref gofal preswyl a phroses yr awdurdod sy'n trefnu'r lleoliad.

Os bydd cwyn am eich ymarfer, dylech ymddwyn yn broffesiynol a chydweithredu â'r ymchwiliad.

Os ydych chi'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion, rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau eich sefydliad.

Dylech sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall rôl eiriolwr annibynnol i'w helpu gyda'r gŵyn, a gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth hwnnw.

Dylech fod yn gyfarwydd â rôl Comisiynydd Plant Cymru. Mae gan y Comisiynydd bwerau deddfwriaethol i roi cymorth i blant a phobl ifanc, rhieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Dylech annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn mentrau i roi safbwyntiau a sylwadau am eu gwasanaethau, fel sy'n briodol.

6.

Diogelu unigolion

Diogelu yw amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb ar bawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth yn ei allu i sicrhau bod unigolion yn cael eu hamddiffyn.

Mae gan weithwyr gofal preswyl plant rôl bwysig ac mae angen iddynt wybod sut i ymateb i ystod o risgiau posibl: esgeuluso, hunan-esgeuluso, camddefnyddio sylweddau, cam-drin, cam-drin domestig, cam-fanteisio rhywiol, cam-fanteisio ariannol, caethwasiaeth, masnach pobl a bwlio, yn cynnwys bwlio ar-lein.

6.1 Deall diogelu

Mae'n rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- a. y ffactorau a all arwain at niwed, camdriniaeth neu gam-fanteisio
- d. arwyddion niwed neu gamdriniaeth bosibl
- c. gweithdrefnau'ch sefydliad
- ch. eich cyfrifoldeb proffesiynol.

Mae'n rhaid i chi gadw at bolisiau a gweithdrefnau'ch sefydliad ar ddiogelu. Mae'n rhaid i chi roi gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch plentyn neu berson ifanc.

6.2 Cynorthwyo plant a phobl ifanc i'w cadw eu hunain yn ddiogel

Dylech wneud eich gwaith mewn ffordd sy'n helpu plant a phobl ifanc i aros yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys:

- a. hybu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- b. dilyn cynlluniau rheoli risg
- c. cynorthwyo plant a phobl ifanc i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- ch. cynorthwyo plant a phobl ifanc i allu gweld pan fydd ymddygiad tuag atynt yn amhriodol neu'n annerbyniol, lle bo'n bosibl
- d. cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu eu gallu i'w cadw eu hunain yn ddiogel
- dd. cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu perthynas ddiogel a chefnogol ag eraill

- e. cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

6.3 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) yn drosedd yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae dyletswydd ar bob gweithiwr gofal cymdeithasol, yn cynnwys gweithwyr gofal preswyl plant, i gysylltu â'r heddlu os yw'n dod ar draws achos posibl o anffurfio organau cenhedlu merch o dan 18 oed.

6.4 Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth

Mae'n bosibl bod dyletswydd gyfreithiol ar eich sefydliad i ystyried yr angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau ar hyn. Dylech gynorthwyo'ch cyflogwr i weithredu'r canllawiau, er enghraifft, drwy fynychu hyfforddiant.

7. Iechyd a diogelwch

Mae gan eich cyflogwr ystod o gyfrifoldebau i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant a lleihau risg annerbyniol i chi ac i eraill. Mae gennych chi gyfrifoldeb i gydweithredu â'ch cyflogwr ar faterion iechyd a diogelwch.

7.1 Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd

Rhaid i chi gadw at ofynion iechyd, diogelwch a diogelwch statudol a sefydliadol yn cynnwys, ymhlith eraill, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Mae'n rhaid i chi gwblhau hyfforddiant gorfodol ar bynciau iechyd a diogelwch.

7.2 Meddyginiaeth

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar feddyginiaeth yn cynnwys:

- a. gweinyddu'n ddiogel
- b. cofnodi
- c. cadw'n ddiogel
- d. gwaredu.

Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth bresgripsiwn a meddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn a ddefnyddir ar yr aelwyd. Ni ddylech roi'ch meddyginiaeth chi i blentyn neu berson ifanc, hyd yn oed os yw heb fod ar bresgripsiwn. Rhaid i chi beidio â rhoi cyngor ar feddyginiaeth.

7.3 Diogelwch a llesiant

Mae gan eich sefydliad gyfrifoldeb i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo iechyd a llesiant. Mae gennych chi gyfrifoldeb hefyd i gymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a diogelwch chi'ch hun ac iechyd a diogelwch eraill wrth i chi wneud eich gwaith. Felly mae angen i chi weithio gyda'ch cyflogwr wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd gofal tuag atoch chi.

Gallai'ch gwaith fod yn faich emosiynol ac yn straen ar brydiau. Dylech ganfod ffyrdd o gefnogi eich llesiant eich hun fel manteisio ar gymorth sy'n cael ei gynnig gan eich rheolwr neu'ch cyflogwr. Gall cydweithwyr fod yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth i'w gilydd hefyd.

Mae'n rhaid i chi gadw at bolisiau a gweithdrefnau fel rhoi gwybod am ddigwyddiadau, cymorth cyntaf, gweithio ar eich pen eich hun, rheoli ymddygiad a thrais yn erbyn staff.

7.4 Cefnogi ymddygiad cadarnhaol

Mae'n rhaid i chi weithio mewn ffordd sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn seiliedig ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau perthnasol, cyfrannu at gynlluniau rheoli ymddygiad a strategaethau ataliol.

Er gwaethaf y dulliau hyn, gall plant a phobl ifanc ar brydiau ymddwyn yn heriol gan beri eu bod hwy neu eraill mewn perygl o niwed. Mae ymateb i'r ymddygiad hwn yn gofyn am amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys pan fetha pob dim arall, ymyriad corfforol cyfyngol.

Os yw'n ofynnol i chi ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol rhaid i chi:

- a. gydymffurfio â pholisiau a chanllawiau eich sefydliad
- b. dilyn hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant diweddarau, a drefnir gan eich cyflogwr
- c. defnyddio dulliau a gydnabyddir yn broffesiynol yn unig sy'n briodol i'r plentyn neu'r person ifanc perthnasol

- ch. defnyddio'r ymyriad lleiaf (o ran nerth ac amser) sy'n angenrheidiol i atal niwed neu leihau difrod
- d. rhoi gwybod i weithiwr allweddol y plentyn a'ch rheolwr ar ôl unrhyw ddigwyddiad
- dd. cofnodi'r digwyddiad yn unol â gweithdrefnau
- e. cyfrannu'n adeiladol at gyfarfodydd dad-friffio ar ôl digwyddiad
- f. defnyddio goruchwyliaeth i fyfyrion ar ddigwyddiadau a dysgu ganddynt.

Rhaid i chi beidio â:

- a. defnyddio dulliau ymyriad corfforol cyfyngol sy'n dibynnu ar achosi poen i sicrhau ufudd-dod
- b. cyfyngu person gyda'i wyneb tuag at y llawr
- c. bygwth ymyriad er mwyn cosbi, cywilyddio, diraddio neu wahaniaethu.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau'ch sefydliad ynglŷn â chydweithio â'r heddlu, gan gymryd cyngor gan reolwyr a chydweithwyr, yn ôl yr angen.

7.5 Cefnogi iechyd a diogelwch

Dylech weithio gyda'ch cyflogwr i fonitro, adolygu a gwella arferion iechyd, diogelwch a diogeledd.

8. Dysgu a datblygu

Mae dysgu a datblygu yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth da i blant a phobl ifanc. Mae cyfrifoldeb ar eich cyflogwr i roi cyfleoedd i chi ddatblygu'ch gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Rydych chi'n gyfrifol am ennill y cymhwyster gofynnol ar gyfer eich rôl, cymryd rhan mewn hyfforddiant gorfodol a dysgu'n barhaus, er enghraifft, i ddatblygu sgiliau i weithio gyda phlant ag anghenion penodol.

8.1 Diweddarau'ch gwybodaeth

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol, gan weithio gyda'ch cyflogwr i ddod o hyd i ffyrdd i ddiwallu eich anghenion dysgu a datblygu.

Dylech chi:

- a. adolygu eich gwybodaeth am ymarfer yn barhaus
- b. gwranddo ar eraill a dysgu ganddynt, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc a theuluoedd
- c. gofyn am gymorth i fynd i'r afael â bylchau yn eich dysgu
- ch. cadw cofnod o'ch dysgu
- d. sicrhau eich bod chi'n bodloni'r gofynion hyfforddi ar gyfer eich cofrestriad proffesiynol.

Dylech ddiweddarau eich gwybodaeth mewn sawl ffordd wahanol, fel darllen, mynychu hyfforddiant, cyfrannu at gyfarfodydd tîm, grwpiau a fforymau.

Dylech gael y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau ac adnoddau lleol a allai fod yn berthnasol i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw.

8.2 Goruchwyllo ac arfarnu

Dylech ddefnyddio'r cyfleoedd goruchwyllo ac arfarnu sydd ar gael gan eich cyflogwr i:

- a. nodi'ch amcanion gwaith a datblygiad personol
- b. gofyn am adborth a chynghor ar eich gwaith a chymorth ar ei gyfer
- c. cytuno ar gamau gweithredu
- ch. myfyrio ar eich ymarfer a'i wella.

Rhaid i chi gymryd rhan mewn prosesau goruchwyllo ac arfarnu yn unol â pholisi eich sefydliad a gydag agwedd adeiladol.

Rhaid i chi godi unrhyw faterion brys gyda'ch rheolwr, yn hytrach nag aros am gyfarfod goruchwyllo.

8.3 Cynorthwyo cydweithwyr i ddysgu

Mae cynorthwyo gyda dysgu, hyfforddi, asesu a mentora cydweithwyr yn hollbwysig ar gyfer y gwasanaeth heddiw ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n dilyn hyfforddiant sefydlu ac yn astudio am gymwysterau. Dylech fod yn barod i gyfrannu at y gweithgareddau hyn ac, os ydych chi'n gwneud hynny, i ddatblygu'r cymhwysedd angenrheidiol.

9. Cyfrannu at wella'r gwasanaeth

Gall gweithwyr gofal preswyl plant gyfrannu at amrywiaeth o weithgareddau i sicrhau gwasanaeth da i blant a phobl ifanc. Gallant gynnwys datblygu polisiau a chyfrannu at gynllunio, adolygu a gwerthuso'r gwasanaeth.

Os ydych chi'n penderfynu gwneud hyn, gofalmch fod eich cyfraniad yn canolbwyntio ar ansawdd a gwella. Dylech ddefnyddio'ch adborth gan blant a phobl ifanc i lywio'r gweithgaredd.

9.1 Adnoddau

Dylech gyfrannu at nodi'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth da. Dylech leihau gwastraff a chofio'ch cyfrifoldeb i wneud defnydd da o adnoddau cyfyngedig.

9.2 Mynegi pryderon

Rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr neu'ch cyflogwr os oes gennych chi bryderon am:

- a. bolisiau neu weithdrefnau aneffeithiol neu fylchau ynddynt
- b. yr adnoddau sydd ar gael
- c. llwyth gwaith rhy drwm
- d. eich diogelwch chi eich hun neu eraill
- dd. bwlio neu aflonyddu
- e. offer
- f. sgiliau'r tîm
- ff. arferion gwael
- g. achosion o dorri'r gyfraith
- h. achosion o dorri'r Còd Ymarfer Proffesiynol.

Dylech fod yn gyfarwydd â'r polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am bryderon, er enghraifft, bwlio ac aflonyddu, chwythu'r chwiban.

Os nad yw'ch rheolwr neu'ch cyflogwr yn cymryd camau digonol, dylech gael cyngor annibynnol gan sefydliad priodol fel Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Undeb Llafur neu Public Concern at Work. Dylech gofnodi'ch pryderon a'r camau rydych wedi'u cymryd i geisio eu datrys.

10. Ymddygiad da

Mae ymddygiad da yn cynnwys bod yn onest ac yn ddibynadwy ac yn ddidwyll. Mae gofyn i'ch ymddygiad, yn y gwaith a thu hwnt, gyfiawnhau'r ffydd sydd gan blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd ynddoch.

10.1 Cofrestriad proffesiynol

Mae'n rhaid i chi ddiweddarau'ch cofrestriad proffesiynol gyda ni.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw beth a allai godi amheuaeth am eich addasrwydd i weithio ym maes gofal preswyl plant.

Mae hyn yn cynnwys:

- a. achosion troseddol ac ymchwiliadau heddlu sydd ar y gweill
- b. rhybuddion, gorchmynion llys, cosbau penodedig neu ddedfrydau
- c. camau disgyblu
- ch. unrhyw newidiadau i'ch iechyd corfforol neu feddyliol a allai effeithio ar eich gallu i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Noder: ni fydd dweud wrthym am y pethau hyn yn effeithio ar eich cofrestriad o reidrwydd.

I gadw'ch cofrestriad, rhaid i ni allu cysylltu â chi. Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid i'ch manylion cyswllt yn cynnwys eich enw, teitl, cyfeiriad cartref, cyfeiriad gwaith, e-bost a manylion cyflogaeth.

10.2 Rhoddion a chyfraniadau

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â rheoliadau perthnasol mewn perthynas â rhoddion, cyfraniadau a chymynroddion.

Mae'n rhaid i chi beidio ag annog plant a phobl ifanc neu eu teuluoedd i roi benthyg neu roi eiddo, arian neu roddion y byddech chi'n elwa'n bersonol arnynt, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Rhaid i chi beidio â rhoi pwysau ar blant a phobl ifanc neu deuluoedd i roi cyfraniadau i bobl neu sefydliadau eraill.

10.3 Cyfryngau cymdeithasol

Cydnabyddir y byddwch yn defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol o bosibl (Facebook, Twitter, ac ati) yn cynnwys i

rannu gwybodaeth gyffredinol gan eich cyflogwr. Os byddwch chi'n gwneud hynny, rhaid i chi beidio â thrafod neu roi sylwadau amhriodol ar-lein am unigolion sy'n gysylltiedig â'ch gwaith. Mae hyn er mwyn diogelu cyfrinachedd ac uniondeb personol a phroffesiynol.


Meddyliwch yn ofalus am sut rydych chi'n portreadu eich hun ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol a pha argraff y gallech ei chyfleu i eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, yn awr ac yn y dyfodol.

Dylai'ch ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol gyrraedd yr un safonau uchel â'ch ymddygiad o ddydd i ddydd a rhaid i chi gynnal ffiniau proffesiynol bob amser.

Rhaid i chi gadw at bolisi'ch sefydliad ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Am fwy o wybodaeth ewch i
gofalcymdeithasol.cymru

South Gate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government